# BANER BORFFOR I ABER

## Aberystwyth yn ennill Baner Borffor gyntaf Cymru



Mae Aberystwyth wedi ennill Baner Borffor gyntaf Cymru oherwydd gall pobl fwynhau 'gwell noson allan' yn y dref.

Rhoddir cydnabyddiaeth i Aberystwyth am fod modd i ymwelwyr gael nosweithiau allan difyr, amrywiol a diogel.

Mae tref Aberystwyth wedi ymuno â 29 o drefi a dinasoedd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon sydd eisoes wedi ennill statws y Faner Borffor.

Llwyddodd Aberystwyth i gael sgôr uchel ar gyfer y Faner Borffor drwy ddarparu digonedd o leoedd i fynd yn hwyr yn y nos a chreu awyrgylch braf.

**'Ar flaen y gad'**

Rhoddwyd canmoliaeth i'r dref am fod digon o heddweision i'w gweld yn yr ardaloedd prysuraf , ac am fod yno naws groesawgar i ymwelwyr, rhywbeth sy'n hanfodol wrth hybu twristiaeth.

Gwobr i ganol trefi a dinasoedd yw'r Faner Borffor - yn debyg i'r Faner Las a roddir i draethau - gyda chefnogaeth y Llywodraeth, yr Heddlu a busnesau.

Er mwyn ennill statws y Faner Borffor mae'n rhaid i drefi a dinasoedd roi croeso i bawb, gan gynnig ffyrdd diogel i bobl deithio adref, darparu amrywiaeth dda o leoedd i fynd, a bod yn atyniadol liw nos.

Gall trefi elwa ar y Faner Borffor drwy ddenu mwy o ymwelwyr, lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwella delwedd gyhoeddus canol y dref.

Dywedodd llefarydd ar ran Cyngor Ceredigion: "Pleser o'r mwyaf yw croesawu'r Faner i Geredigion, yn enwedig gan mai Aberystwyth yw'r lle cyntaf yng Nghymru i ennill y wobr bwysig hon.

"Fel tref brifysgol ar yr arfordir, mae Aberystwyth bob amser ar flaen y gad wrth gynnig nosweithiau allan pleserus a hwylus i ymwelwyr a phobl leol, ac rydym yn ddiolchgar iawn am waith caled Partneriaeth y Faner Borffor sydd wedi arwain at y wobr heddiw."



DGJones/CC Wikimedia

**Canmoliaeth i'r dref am fod yno naws groesawgar i ymwelwyr**

**'Ymroddiad'**

Cymdeithas y Rheolwyr Canol Trefi sy'n arwain cynllun y Faner Borffor, gyda chymorth Diageo, y Swyddfa Gartref, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Rheoliadau Llywodraeth Leol a nifer o gyrff cenedlaethol amlwg eraill, sy'n dangos bod y diwydiant yn gadarn y tu ôl i'r fenter bwysig hon.

Dywedodd Martin Blackwell, Prif Weithredwr Cymdeithas y Rheolwyr Canol Trefi: "Mae'n wych ein bod yn dyfarnu'r statws Baner Borffor yng Nghymru am y tro cyntaf.

"Fel un o gyrchfannau gwyliau mwyaf allweddol y Deyrnas Unedig gyda phoblogaeth o 12,250, mae Aberystwyth wedi dangos ymroddiad wrth sicrhau bod y dref liw nos yn agored i bawb, a bod y mannau cyhoeddus yn lân ac yn braf i fod ynddynt.

" Rydyn ni yn hyderus y bydd y Faner Borffor hon yn annog trefi a dinasoedd ar hyd a lled Cymru i gymryd rhan yn y cynllun hwn, a chyflawni safonau yr un mor drwyadl yn y dyfodol."